Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaeth Achos

# Ysgol Gynradd Gymunedol Prendergast

Cafodd Ysgol Gynradd Prendergast, sydd wedi'i lleoli yn Hwlffordd, Sir Benfro, statws Caru Gwenyn yn 2024, fel cydnabyddiaeth o'u hymrwymiad i gefnogi pryfed peillio a hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae'r cyflawniad hwn yn adlewyrchu cenhadaeth ehangach yr ysgol i baratoi disgyblion ar gyfer bywydau hyderus, llwyddiannus a chyflawn, gan eu hannog i gyfrannu'n gadarnhaol at y byd. Wedi'u harwain gan eu harwyddair, 'Credu a Chyflawni', mae staff a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i feithrin cysylltiad dwfn â natur a chynaliadwyedd, sy'n hanfodol wrth arfogi disgyblion â sgiliau ar gyfer dyfodol sy'n newid yn gyflym.


Wrth wraidd achrediad Caru Gwenyn Ysgol Gynradd Prendergast mae ffocws ar gadwraeth pryfed peillio. Trwy ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a phrosiectau ymarferol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ba mor hanfodol bwysig yw pryfed peillio fel gwenyn, glöynnod byw a phryfed hofran i ecosystemau a'r broses o gynhyrchu bwyd. Gan ddefnyddio'r Rhestr Planhigion Caru Gwenyn, mae'r plant wedi tyfu ystod amrywiol o blanhigion sydd wedi'u cynllunio i ddenu a chynnal pryfed peillio. Mae'r dull ymarferol hwn nid yn unig yn gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol ond hefyd yn dysgu sgiliau pwysig i ddisgyblion ar gyfer swyddi yn y dyfodol – efallai nad yw llawer ohonynt yn bodoli eto ond bydd angen gallu datrys problemau, cydweithio, a bod â dealltwriaeth o gynaliadwyedd.





Menter allweddol sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd hyn yw prosiect Bocs Bwyd yr ysgol, sy'n cyd-fynd â'r gwaith Caru Gwenyn ac ymrwymiad yr ysgol i ymwneud â'r gymuned. Siop talu'r hyn rydych chi'n ei deimlo sy'n iawn yw Bocs Bwyd sy'n cynnig planhigion sy'n cael eu tyfu gan ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n denu pryfed peillio, yn ogystal â bwyd dros ben gan fusnesau lleol. Mae'r fenter hon yn meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd lleol a hefyd yn dysgu sgiliau gwerthfawr i ddisgyblion o ran cynhyrchu bwyd, cynaliadwyedd ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae hefyd yn rhoi ffordd i deuluoedd gymryd rhan, yn cryfhau perthnasoedd ac yn adeiladu cyd-ddealltwriaeth o ofal amgylcheddol.

Yn 2024, roedd yr ysgol yn ffodus i gaffael cae mawr, sy'n cael ei drawsnewid yn ardal awyr agored a gynlluniwyd i gefnogi dysgu am fioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae disgyblion wedi bod yn rhan fawr o gynllunio'r ffordd orau i ddefnyddio'r gofod hwn, gan ddefnyddio offer traddodiadol a digidol fel Minecraft Education i fapio gwahanol ardaloedd. Mae'r gwaith o drawsnewid y cae wedi bod yn bosibl, yn rhannol, gan Becyn Datblygu Enfawr Cadwch Gymru'n Daclus, a ariennir drwy fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru.




Mae'r fenter wedi darparu adnoddau sydd wedi galluogi creu cynefinoedd amrywiol, gan gynnwys datblygu un rhan o dair o'r cae i fod yn ddôl blodau gwyllt, gan ddilyn arweiniad gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro. Drwy ddefnyddio'r dull torri a chasglu, mae'r ysgol yn gweithio i greu cynefin naturiol sy'n cefnogi pryfed peillio a bywyd gwyllt eraill tra'n cynnig dosbarth byw i ddisgyblion ar gyfer addysg amgylcheddol ymarferol.

Mae ymrwymiad yr ysgol i addysg amgylcheddol hefyd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ei hawydd i ddisgyblion ddatblygu ymdeimlad cryf o gynefin – dealltwriaeth o'u lle yn y byd a chysylltiad â'r tir, diwylliant, a'r gymuned o'u cwmpas. Drwy ymgysylltu â'r dirwedd leol a dysgu am yr amgylchedd naturiol, mae disgyblion yn datblygu gwerthfawrogiad o natur unigryw eu hardal leol. Mae'r cysylltiad hwn â lle yn helpu i wreiddio eu dysgu, gan ei wneud yn fwy ystyrlon a pherthnasol wrth iddynt ddatblygu sgiliau ar gyfer eu dyfodol.



Ochr yn ochr â'u gwaith Caru Gwenyn, mae Ysgol Gynradd Prendergast hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro a diogelu bywyd gwyllt lleol. Mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn Cyfrifon Blodau -Pryfed wedi'u hamseru (FIT) a'r Cyfrifiad Mawr Glöynnod Byw, gan gasglu data gwerthfawr ar boblogaethau pryfed peillio. Wrth symud ymlaen, byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gymunedol Pennar, gyda chefnogaeth gan Ganolfan Darwin, Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Gyda'i gilydd, bydd yr ysgolion yn cynnal arolygon er mwyn sefydlu llinell sylfaen bioamrywiaeth ar eu tiroedd, gan gasglu data nid yn unig ar bryfed peillio ond hefyd ar ystlumod, planhigion, draenogod a bywyd pyllau dwr. Bydd y gwaith hwn ar y cyd yn rhoi profiad i ddisgyblion mewn casglu a dadansoddi data gwyddonol, gan eu grymuso i wneud argymhellion a fydd yn llywio gwaith rheoli'r safleoedd yn y dyfodol. Bydd y cofnodion biolegol y maent yn eu cyflwyno i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn cyfrannu at yr ymdrech gadwraeth ehangach, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o naturiaethwyr a cheidwaid amgylcheddol.

Er bod yr ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau cymunedol ehangach, maent hefyd yn ymfalchïo yn nheuluoedd lleol y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) sy'n rhan o'u hysgol. Mae presenoldeb dant y llew yn eu dolydd blodau gwyllt, sydd â chysylltiad agos â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn darparu cysylltiad addas â'r agwedd hon ar gymuned yr ysgol. Mae'r ddôl, ynghyd ag ardaloedd gwyllt eraill fel pwll yr ysgol, yn cael ei chynnal i gefnogi pryfed peillio a bywyd gwyllt eraill, gan sicrhau y gall disgyblion arsylwi ac ymgysylltu â chynefin naturiol ffyniannus.





Mae Ysgol Gynradd Prendergast yn rhoi pwys mawr ar feithrin lles a sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o'i hawliau, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r ysgol yn credu, drwy ddysgu disgyblion am eu hawliau, gan gynnwys yr hawl i amgylchedd iach, y byddant yn fwy parod i weithredu dros eu byd, yn lleol ac yn fyd-eang. Mae'r ffocws hwn ar hawliau hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr ysgol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud penderfyniadau cynaliadwy drostynt eu hunain a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ysgol yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsant gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro a sefydliadau lleol a chenedlaethol eraill, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Darwin, Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, a Bluestone (sefydliad sy'n Caru Gwenyn). Maent am ddatblygu cysylltiadau agos ag arbenigwyr ecoleg a chynaliadwyedd i sicrhau bod y newidiadau a wnânt yn gynaliadwy, yn realistig ac yn unol ag arferion gorau.

Mae ymrwymiad Ysgol Gynradd Prendergast i addysg amgylcheddol, cadwraeth pryfed peillio a chyfranogiad cymunedol yn adlewyrchiad clir o'u gwerthoedd. Un cam yw'r achrediad Caru Gwenyn ar daith ehangach i baratoi disgyblion ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol tra'n eu helpu i ddeall a choleddu eu lle yn y byd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50813